Y CRIW Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 1:
Beth ddylem ei wneud?

Amcan Dysgu

Creu syniadau ar gyfer prosiect menter.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Meddwl Dargyfeiriol – creu syniadau
- Adnabod a chreu cyfleoedd
- Arloesi

Trefniadaeth

- Gwneud penderfyniadau

Gweithgareddau dysgu

Er mwyn cadarnhau'r hyn maent yn ei wybod eisoes, gofynnwch i'r disgyblion gynnig enghreifftiau o fenter ac entrepreneuriaeth. Defnyddiwch **Adnodd 1a – geirfa Y Criw Mentrus** i ddarganfod dealltwriaeth y disgyblion o eiriau allweddol fel menter, cynnyrch a gwasanaeth.

Eglurwch fod gan entrepreneuriaid yn aml dîm o bobl o'u cwmpas i gyd â chryfderau gwahanol.

Ysgrifennwch lythrennau mawr A, C, C, T ar y bwrdd a chyflwynwch y dosbarth i'r Criw Mentrus:

- **Amy** (ar gyfer Agwedd)
- **Rhian** (ar gyfer Cysylltiadau)
- **Callum** (ar gyfer Creadigedd)
- **Owain** (ar gyfer Trefniadaeth).

Cyflwynwch her y 'Criw' i'r disgyblion h.y. meddwl am brosiect menter i ddiwallu angen o fewn yr ysgol neu'r gymuned.

Gan weithio mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r disgyblion edrych ar Astudiaethau achos ysgolion Y Criw Mentrus Yng nghyswllt pob astudiaeth achos, gofynnwch iddynt drafod yn fyr yr hyn y maent yn ei hoffi a pham?

Gweithgaredd 1:
Beth ddylem ei wneud?

Cynradd Uwch

Erbyn hyn dylai'r disgyblion fod â digon o ysbrydoliaeth i ddechrau meddwl am eu prosiect menter eu hunain. Gofynnwch iddynt feddwl am gwestiynau fel:

- *Pa ddigwyddiadau sydd ar y gweill yn yr ysgol?*
- *Pa gynnyrch / gwasanaeth a allai ddiwallu angen yn ein hysgol neu'r gymuned?*
- *Beth ydym yn ei wneud yn dda?*
- *Pa sgiliau, gwybodaeth a diddordebau sydd gennym fel dosbarth y gallem eu defnyddio?*
- *Pwy all ein helpu?*

Gan weithio mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am, a blaenoriaethu syniadau ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth dosbarth. Sicrhewch y plant fod unrhyw syniadau yn bosibl ar hyn o bryd.

Gofynnwch i bob grŵp egluro wrth y dosbarth beth yw eu syniadau a'r rhesymau drostynt. Gan fod hwn yn gyfle da i werthuso cymheiriaid, gofynnwch i'r disgyblion eraill roi adborth adeiladol.

Gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio er mwyn dod i benderfyniad ar y cyd ynglŷn â'r syniad menter gorau.

Yn olaf, cyflwynwch y disgyblion i **Adnodd 1b – Fy Rhestr Wirio'r Criw Mentrus**. Gofynnwch iddynt ei ddefnyddio i ddangos sut maen nhw'n dod yn Griw Mentrus wrth iddynt gyflawni eu prosiect

Canlyniad dysgu

Bydd disgyblion yn nodi anghenion ac yn cynhyrchu syniadau dychmygus trwy ofyn cwestiynau a meddwl am syniadau fel grŵp.

Adnoddau sydd eu hangen

- TGCh
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol
- Adnodd 1a - geirfa Y Criw Mentrus
- Adnodd 1b - Fy Rhestr Wirio Y Criw Mentrus

Gweithgaredd 1:
Beth ddylem ei wneud?

Cynradd Uwch

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a Phrofiadau

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mae dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ateb gofynion ac anghenion cymdeithas.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Eglurder a geirfa
- Pwrpas
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando am ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government